

CYFARFOD	FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
DYDDIAD	7 Chwefror 2022
TEITL	Canlyniad ymgynghori ar newid dull dyrannu cyllid Cynnal Tiroedd ysgolion
PWRPAS	Canlyniad yr ymgynghori gydag ysgolion
ARGYMHELLIAD	<p>i) Bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn argymhell i'r Cabinet newid dull dyrannu cyllid Cynnal Tiroedd ysgolion o 1 Ebrill, 2022 ymlaen trwy gymryd cyfanswm y dyraniad cynnal tiroedd presennol i ysgolion a'i ail-ddosbarthu ar draws pob ysgol mewn cymhareb â'r dadansoddiad o anghenion oriau craidd cynnal tiroedd safleoedd yr ysgolion unigol.</p> <p>ii) Bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn gofyn i'r Gwasanaeth Cynnal Tiroedd sirol (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) wirio'r asesiadau 'oriau craidd' ysgolion yn rheolaidd ac yn ôl y gofyn.</p>
AWDUR	Owen Owens
AELOD CABINET DROS ADDYSG	Y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams

1. Cefndir

1.1 Cymeradwyodd Fforwm Cyllideb Ysgolion ymgynghoriad gydag ysgolion ar y bwriad i newid dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd ysgolion ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.

1.2 Ymgynghorwyd gyda'r ysgolion (gweler **Atodiad 1**) ar ddau fodel posib ar gyfer newid y dull ariannu cyllid Cynnal Tiroedd :

Model 1

*Cymryd **dyraniad cynnal tiroedd presennol fesul sector ysgol a'i ail-ddosbarthu o fewn y sector** mewn cymhareb â'r dadansoddiad o anghenion oriau craidd cynnal tiroedd y safleoedd unigol yn y sector*

Model 2

*Cymryd **cyfanswm y dyraniad cynnal tiroedd presennol i ysgolion a'i ail-ddosbarthu ar draws pob ysgol** mewn cymhareb â'r dadansoddiad o anghenion oriau craidd cynnal tiroedd safleoedd yr ysgolion unigol.*

- 1.3 Cyflwynwyd taenlen (gweler **Atodiad 2**) yn dangos yr effaith fesul ysgol o ddefnyddio'r ddau fodel uchod mewn cymhariaeth â dyraniad cyllid cynnal tiroedd 2021-22.

2. Canlyniadau'r Ymgynghoriad

- 2.1 Derbyniwyd 13 ymateb gan yr ysgolion cynradd, 3 ymateb gan yr ysgolion uwchradd, 1 ymateb gan yr ysgolion dilynol a 0 ymateb gan yr ysgolion arbennig.

- 2.2 Dyma'r farn a nodwyd fesul sector:

Sector	O blaid Model 1	O blaid Model 2	Yn erbyn newid	Dim barn
Cynradd	3	7	1	2
Uwchradd	1	-	1	1
Dilynol	-	-	1	-
Arbennig	-	-	-	-
Cyfanswm	4	7	3	3

- 2.3 Derbyniwyd y sylwadau canlynol:

Ysgolion cynradd

- Model 1 oherwydd ei fod yn decach i ysgolion eraill - hynny yw yn llai o ergyd ariannol iddynt
- Yn erbyn Model 1
- Mae'r corff Llywodraethol yn erbyn newid. Yn enwedig o ystyried yr 'oriau'. Mae'r ysgol hefo darnau o dir sylweddol, ac nid yw'r oriau yn cyd-fynd a hyn, o gymharu hefo tirwedd ysgolion sy'n adnabyddus i'r corff

- Dim sylwadau am y newid dull ond yn amau gwerth am arian y gwasanaeth i'r ysgolion ar hyn o bryd
- Pa bynnag opsiwn sy'n gwella y ddarpariaeth i'r sector cynradd gan nad oes gofalfwyr llawn amser yn aml ar y safle. Sylwadau - Hapus efo pa bynnag opsiwn sydd yn cynnig gwell darpariaeth i'r ysgolion. Ar hyn o bryd dydi beth sydd yn cael ei gynnig yn y cytundeb ddim yn ateb y gofyn, a mae'r ysgol yn gorfod cyflogi yn ychwanegol tirmyn lleol i dorri sietinoedd a choed/canghennau, rhaid atgoffa am gymorth i ddefnyddio chwynladdwr, dydi amser torri glaswellt ddim yn addas yn aml. Bu rhaid llogi tirmyn ychwanegol i ddelio efo torri coed onnen llynedd. Roedd hyn yn gostau ychwanegol ar ysgolion sydd a tir gyda'r ysgol. Dydyn nhw ddim yn dod i gael gwared o'r tyrchod

Ysgolion uwchradd

- Does gennyf ddim gwrthwynebiad i'r un o'r ddau fodel cyn belled fod cost y CLG yn cydfynd gyda'r dyraniad
- Barn fod dull wedi ei seilio ar sail gadarn fel hyn (Model 1) yn llawer tecach i bawb
- O ystyried y ddau fodel mae'r ysgol yn colli cyllid sydd yn golygu na fyddem yn gallu parhau i gynnal y tiroedd i'r safon bresennol. O ystyried y wybodaeth a dderbyniwyd, rydym o'r farn nad ydi'r oriau craidd yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol oherwydd y canlynol: Dim oriau wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith glanhau ffosydd, mae gennym ddwy ffos hir yma sydd yn allweddol i ddiogelwch safle yr ysgol pan fo hi yn wlyb a'r llanw yn uchel. Nid yw'r oriau craidd yn adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi cymryd lle o fewn y safle yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi ffensio'r safle, y gwaith heb ei gwblhau eto, ond y gobaith y bydd erbyn y flwyddyn newydd sydd yn golygu mwy o waith strimio ac nid yw yn bosib defnyddio peiriannau mawr mewn nifer o leoliadau

Ysgolion dilynol

- Mae unrhyw newid yn mynd i gael effaith sylweddol ar Ysgol Godre'r Berwyn gyda gostyngiad yn y gyllideb o unai £6,297 neu £7,405. Nid yw'r isaf a nodir o £5,551 yn ddigon i dalu am y contract torri gwair yn unig, heb son am unrhw waith cynnal a chadw eraill. Mae'n rhaid imi felly gwesitynru'r dull o adnabod yr oriau craidd angenrheidiol, a'r swm a bennir ar gyfer pob awr.

2.4 Fe welir bod 8 o'r sylwadau yn cyfeirio at yr opsiynau o newid (neu beidio) y dull dyrannu cyllid Cynnal Tiroedd.

Roedd 5 o'r sylwadau yn cyfeirio at y Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal Tiroedd – mewn perthynas ag ynteu ei gynnwys neu ei gost. Nid oedd cynnwys na chost y CLG Cynnal Tiroedd yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

3. Casgliad

3.1 O'r 17 o ysgolion oedd wedi ymateb, roedd 11 o blaid newid i ynteu Fodel 1 neu Fodel 2.

3.2 Roedd mwyafrif y rhai oedd o blaid newid yn ffafrio Model 2, sef **cymryd cyfanswm y dyraniad cynnal tiroedd presennol** i ysgolion a'i **ail-ddosbarthu ar draws pob ysgol** mewn cymhareb â'r dadansoddiad o anghenion oriau craidd cynnal tiroedd safleoedd yr ysgolion unigol.

3.3 Roedd ymateb rhai ysgolion yn awgrymu nad oeddynt yn deall sail cyfrifo'r 'oriau craidd' ar gyfer eu hysgol. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwirio asesiad 'oriau craidd' ysgolion yn ôl y gofyn.

4. Argymhelliad

4.1 Bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn argymhell i'r Cabinet newid dull dyrannu cyllid Cynnal Tiroedd ysgolion o 1 Ebrill, 2022 ymlaen trwy gymryd cyfanswm y dyraniad cynnal tiroedd presennol i ysgolion a'i ail-ddosbarthu ar draws pob ysgol mewn cymhareb â'r dadansoddiad o anghenion oriau craidd cynnal tiroedd safleoedd yr ysgolion unigol.

4.2 Bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn gofyn i'r Gwasanaeth Cynnal Tiroedd sirol (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) wirio'r asesiadau 'oriau craidd' ysgolion yn rheolaidd ac yn ôl y gofyn.